**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Chwefror 2017

Annwyl Simon

Pan fynychais gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ar 2 Chwefror i roi tystiolaeth ynghylch y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â nifer o'r materion a drafodwyd yn ystod sesiwn y Pwyllgor ac rwyf yn ymdrin â'r rhain a rhai meysydd eraill a oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor isod.

**Crynodeb o'r prif bynciau y mae'r Bil yn eu cwmpasu**
Yn unol â'ch cais, mae crynodeb sy'n nodi'r prif bynciau a gwmpesir gan y Bil a'r prif wahaniaethau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth yn y DU, gan gynnwys nodyn ynghylch sut mae pethau wedi cael eu symud i fod ar wyneb y Bil, yn Atodiad 1.

**Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**
Mae'r Swyddfa yn cynhyrchu rhagolygon ar hyn o bryd ar gyfer y refeniw trethi datganoledig ddwywaith y flwyddyn ochr yn ochr â digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn y gwanwyn a'r hydref. Bydd yn parhau i gynhyrchu rhagolygon ar gyfer y refeniw trethi datganoledig a bydd hefyd yn cynhyrchu rhagolygon ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn unol â'r fethodoleg a amlinellwyd yn y fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer cyllideb ddrafft 2018-19, bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu rhagolygon ar gyfer y refeniw a ddaw o drethi datganoledig a fydd wedi'i warantu'n annibynnol ar y llywodraeth. Yn unol â'r cytundeb fframwaith cyllidol, rwyf ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynhyrchu rhagolygon yn annibynnol ar gyfer y refeniw trethi datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd rhagolygon ar gyfer y refeniw trethi datganoledig yn llunio elfen newydd bwysig o'r broses o osod y gyllideb a chraffu arni. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig wrth imi nodi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

**Credyd Dyledion Drwg**
Bydd y rheoliadau i gyflwyno credyd dyledion drwg yn cael eu gwneud o dan Adran 53 o'r Bil gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol a byddaf yn anelu at eu cyflwyno yn ystod hydref 2017 yn amodol ar a fydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Ystyriaf ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru allu trin a thrafod y manylion ynghylch sut y bydd y system credyd yn gweithio ar ôl i weddill y system treth gwarediadau tirlenwi gael ei rhoi ar waith.

Wrth ddatblygu'r rheoliadau credyd dyledion drwg, bydd fy swyddogion yn edrych yn fanwl ar y dull a ddefnyddir yn yr Alban a'r diffiniad o fethdaliad a fabwysiadwyd yno yn ogystal â diffiniadau deddfwriaethol eraill o fethdaliad.

**Rheolwyr**
Fel y cadarnhawyd gennyf yn ystod sesiwn y Pwyllgor, ystyriwyd y pwyntiau allweddol a ganlyn wrth benderfynu caniatáu i'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheolwyr safleoedd gael eu gwneud drwy reoliadau.

Yn gyntaf, gwnaethom ystyried yn ofalus y darpariaethau presennol yn y DU ar reolwyr a'u profi gyda rhanddeiliaid wrth baratoi'r Bil. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw reolwyr yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd ac nid oes tystiolaeth y bydd hyn yn debygol o fod yn broblem.

Yn ail, mae Llywodraeth yr Alban wedi creu pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer gwneud darpariaeth bod rheolwyr yn gymwys i gael eu trethu. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i addasu'r ddeddfwriaeth os bydd data ar y dreth gwarediadau tirlenwi yn awgrymu bod 'rheolwyr' wedi dod yn fater byw yng Nghymru. Felly, rydym wedi defnyddio dull cymesur, sy'n gyson â Llywodraeth yr Alban.

**Addasu Cytundebau**
Effaith adran 87 yw caniatáu i gytundeb gael ei addasu er mwyn rhoi ystyriaeth i newid i'r ddeddfwriaeth drethu sy'n effeithio ar swm y dreth y gellir ei chodi (e.e. newid i'r cyfraddau). Ni fydd addasiad os yw'r cytundeb yn nodi'n benodol na ddylid gwneud hyn.

Gofynnwyd cwestiwn yn ystod sesiwn y Pwyllgor ynghylch a allai newid i'r rhestr o ddeunyddiau cymwys (a fyddai'n cael eu nodi mewn rheoliadau o dan adran 15 o'r Bil) sbarduno'r broses o roi adran 87 ar waith. Gallaf gadarnhau y gallai hynny ddigwydd. Er enghraifft pe bai cytundeb ar waith rhwng gweithredwr safle tirlenwi a chynhyrchwr gwastraff mewn perthynas â deunydd a restrwyd fel deunydd cymwys ac a oedd yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is, a bod deddfwriaeth yn cael ei phasio wedyn a oedd yn tynnu'r deunydd penodol hwnnw oddi ar y rhestr o ddeunydd cymwys, byddai treth yn cael ei chodi ar y deunydd hwnnw ar y gyfradd safonol. Felly, byddai swm y dreth y gellir ei chodi ar waredu'r deunydd hwnnw wedi codi o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth.

Gwnaed y ddarpariaeth ar gyfer addasu cytundebau oherwydd bod darpariaeth o'r fath yn sicrhau nad oes mantais nac anfantais i weithredwyr safleoedd tirlenwi o ganlyniad i beidio ag adlewyrchu newidiadau treth mewn cytundebau hanesyddol mewn amgylchiadau lle nad ydynt wedi ystyried goblygiadau llawn unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth drethu yn y dyfodol.

Mae'r dull yr ydym wedi'i fabwysiadu yn y Bil hefyd yn sicrhau cysondeb gyda'r ddarpariaeth bresennol yn y DU a deddfwriaeth yr Alban. Felly, mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn gyfarwydd â darpariaeth o'r fath.

**Rhyddhad ar gyfer deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill**
Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r rhyddhad yn adran 26 yn berthnasol mewn perthynas â thynnu deunydd at ddiben lleihau'r perygl o lifogydd yn ogystal â mewn perthynas â mordwyaeth. Gallaf gadarnhau y gellir lliniaru'r perygl o lifogydd o ganlyniad i dynnu deunydd o ddyfrffyrdd at ddibenion mordwyaeth.

Fel yr eglurais yn flaenorol, mae'r rhyddhad a'r esemptiadau a fabwysiadir yn y Bil yn gyson, yn gyffredinol, â'r rheini sydd ar gael ar hyn o bryd (fel esemptiadau) yn y DU. Mae'r dull cyson hwn yn golygu y bydd gweithredwyr yn gyfarwydd â'r sefyllfa. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r pryderon a gyflëwyd y gallai gwahaniaethau gwirioneddol rhwng y ddwy gyfundrefn drethu arwain at symud gwastraff dros y ffin, ac ni fyddai hynny'n cael ei groesawu. Ar ôl i'r dreth dirlenwi gael ei datganoli, bydd gan Awdurdod Cyllid Cymru y data i gefnogi ystyriaethau polisi o addasiadau posibl i'r ddeddfwriaeth, o safbwynt treth a'r agenda gwastraff ac amgylchedd ehangach. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer yr hyblygrwydd hwn drwy gynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer ychwanegu, addasu a thynnu rhyddhadau ac esemptiadau.

**Esemptiad mynwentydd anifeiliaid anwes**
Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am dynnu fy sylw at y term "anifeiliaid anwes meirw" yn adran 11 y Bil a'r gwahaniaeth rhwng y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried hyn ymhellach cyn cyfnod 2.

**Pennu pwysau deunydd cyn ei waredu**
Cytunaf i ystyried geiriad adran 20(1) yng nghyd-destun yr arfer ymddangosiadol o bwyso cerbyd oddi ar y bont bwyso ac arni wrth iddo fynd i mewn i safle tirlenwi ac wrth iddo adael. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi ystyriaeth bellach i'r ddarpariaeth hon cyn cyfnod 2.

**Cosb yn ymwneud a'r disgownt dŵr**
Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu fy sylw at weithrediad posibl y gosb disgownt dŵr yn adran 61 o'r Bil. <u>Nid ydym</u> yn bwriadu rhoi cosb os bydd cwsmer yn datgan yn onest wrth weithredwr safle tirlenwi bod llai o ddŵr yn y gwastraff na'r hyn a nodwyd yn ei gytundeb disgownt dŵr a bod ymdrechion i addasu'r datganiad treth yn unol â hynny er mwyn talu'r swm cywir o dreth. Er ein bod yn ystyried na fyddai'r sefyllfa hon yn codi'n aml, mae'n bosibl iddi godi. Gyda hyn mewn golwg, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion roi ystyriaeth bellach i'r ddarpariaeth hon cyn cyfnod 2.

**Gweithredu dulliau pwyso amgen**
Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y posibilrwydd o gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio dull pwyso ar wahân i'r bont bwyso mewn achosion lle bydd y bont wedi torri am gyfnod byr ac ar safleoedd o faint penodol a/neu safleoedd sydd ond yn derbyn nifer benodol o warediadau bob wythnos.

Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i weithredwr bwyso deunydd ar bont bwyso. Fodd bynnag, ceir darpariaeth i Awdurdod Cyllid Cymru gymeradwyo'r defnydd o ddull pwyso amgen ar gais.

Mae'r dull hwn yn rhoi ystyriaeth i weithrediad ymarferol safleoedd tirlenwi gan gydnabod bod pontydd pwyso'n gallu torri o bryd i'w gilydd. Mae dau o fusnesau

safleoedd tirlenwi bach yng Nghymru nad oes ganddynt bont bwyso a, heb y gallu i gytuno ar ddull pwyso amgen, gallai'r safleoedd hyn wynebu pwysau ariannol ychwanegol.

Awdurdod Cyllid Cymru sydd i benderfynu ynghylch dulliau pwyso amgen; fodd bynnag, byddwn yn disgwyl iddo ystyried y dulliau pwyso amgen sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifiadau ar sail trosiadau pwysau a chyfaint, sy'n ddull sefydledig ac yn ddull y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu ei fod yn gywir ar gyfer cadarnhau pwysau deunyddiau. Atodaf ddolen i enghraifft o'r ffactorau trosi a dull o'u rhoi ar waith ar gyfer safle sydd heb bont bwyso neu lle y byddai'r rheolydd am amcangyfrif pwysau deunydd.

Bydd angen i weithredwyr wneud cais i'r Awdurdod i ddefnyddio dull pwyso amgen. Mae nifer o drefniadau diogelu wedi'u cynnwys o fewn y darpariaethau i warchod yn erbyn camddefnydd. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y cytundeb yn amodol ar yr amgylchiadau, gan gynnwys cyfyngiadau amser. Mae hefyd yn ddefnyddiol nodi y gall yr Awdurdod amrywio neu ddirymu cytundeb pwyso amgen. Buaswn yn disgwyl i'r Awdurdod gyhoeddi canllawiau ynghylch y mathau o amgylchiadau lle y gallai fod yn ddefnyddiol defnyddio dull pwyso amgen; gallai hyn, er enghraifft, gynnwys ystyriaeth o nifer a maint y gwarediadau sy'n cael eu gwneud mewn safle tirlenwi yn ogystal â'r rhesymau pam na ellir defnyddio pont bwyso. Bydd disgwyl i weithredwyr gydymffurfio â'r trefniadau pwyso sydd ar waith – pa un a yw hyn yn ddyletswydd i ddefnyddio pont bwyso neu'n ddull amgen a gytunwyd gyda'r Awdurdod, a byddant yn cael cosb bwyso os na fyddant yn cydymffurfio.

Bydd gofyn i weithredwyr safleoedd tirlenwi gadw cofnodion mewn perthynas â phwyso'r deunydd a dderbynnir ar eu safleoedd. Os yw'r Awdurdod yn bryderus ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â'r cytundeb pwyso, buaswn yn disgwyl iddo drafod hyn â'r gweithredwr. Gall yr Awdurdod hefyd ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i agor ymchwiliad ac asesu'r dreth. Fel rhan o ymchwiliad, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn dymuno cynnal archwiliad o'r safle fel y gall edrych ar ddogfennau pwyso (gallai hyn gynnwys cymhariaeth â Ffurflen Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n ddogfen ar wahân sy'n cofnodi, at ddibenion amgylcheddol, y mathau a'r symiau o ddeunyddiau sy'n mynd i mewn ac allan o safle tirlenwi) a hefyd gwylio'r broses bwyso.

**Cynllun Cymunedau**

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r cais am gyllid o dan y Cynllun Cymunedau arfaethedig ar gael i adfer safleoedd tirlenwi 'amddifad'.

Mae darpariaethau eisoes ar waith i'r rheolwr asesu'r broses o reoli safleoedd tirlenwi amddifad a gofalu amdanynt. Cyn y rhoddir trwydded ar gyfer safle tirlenwi a chyn y dechreuir y gweithgareddau gwaredu, mae'n ofyniad o dan Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb Tirlenwi y gwneir darpariaeth ariannol os bydd gweithredwr safle tirlenwi yn methu â thalu rhwymedigaethau sy'n codi o'r drwydded (fel gwaith rheoli nwyon a thrwytholch) gan gynnwys y gwaith o ofalu am y safle tirlenwi. Rhaid i'r ddarpariaeth ariannol ar gyfer safleoedd tirlenwi fod yn ddigonol, yn ddiogel ac ar gael. Gellir sicrhau hyn, er enghraifft, drwy fondiau adnewyddadwy, cyfrifon cytundeb neu flaendaliadau ariannol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi ei ganllawiau ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi ar ddarpariaethau ariannol.

Bydd fy nghyd-ysgrifennydd, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, yn ymgynghori yn ddiweddarach eleni ar y newidiadau i gryfhau a symleiddio ymhellach y gofynion cymhwyso ac ariannol y dylai gweithredwyr eu bodloni wrth wneud cais am drwydded amgylcheddol neu ddal trwydded.

**Tynnu gwastraff gwerthfawr o safleoedd tirlenwi - diogelu ar gyfer y dyfodol**
Fel y soniais wrth y Pwyllgor ar sawl achlysur, rwyf wedi mabwysiadu dull cytbwys wrth geisio rhoi cymaint o fanylion â phosibl ar wyneb y Bil gan sicrhau hefyd bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i ddiogelu'r Bil ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae angen hyblygrwydd i ymateb i faterion newydd a datblygiadau technolegol. Yn fy marn i, mae'r Bil yn darparu hyn drwy'r pwerau gwneud rheoliadau, er enghraifft, i ychwanegu, addasu neu dynnu rhyddhad neu gredydau. Byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio ar gyfer y rheoliadau hyn.

Wrth i faterion newydd godi ac wrth i dechnoleg ddatblygu, gellir gwneud achos dros ddefnyddio'r hyblygrwydd o fewn y Bil i gefnogi polisïau ac amcanion gwastraff ehangach. Mae'r enghraifft a godwyd yn y Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o dynnu deunydd o safleoedd tirlenwi yn un maes o'r fath lle y mae'n bosibl y gwelwn ddatblygiadau yn y dyfodol, yn enwedig o gofio ei broffidioldeb posibl. Byddai'r mater penodol hwn yn amodol ar reolaethau cynllunio a thrwyddedu o gofio cymhlethdodau tynnu gwastraff a'r risgiau amgylcheddol ac iechyd cyhoeddus posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Pe bai unrhyw achos o ddileu credyd neu ryddhad ar gyfer tynnu gwastraff hanesyddol yn cael ei gynnig, lle bo treth yn daladwy i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, mater i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi Ei ystyried fyddai hynny. Dylid nodi mai dim ond o fis Ebrill 2018 y bydd y dreth gwarediadau tirlenwi'n dod i rym (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad).

**Costau trosglwyddo Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**
Bydd costau trosglwyddo'n cael eu negodi gan Drysorlys Cymru ac yn cael eu talu ganddo – nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon cost ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Deallwn mai'r gost gyfatebol i Lywodraeth yr Alban oedd £1m ar gyfer y ddwy dreth ac adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn yr un modd, bydd unrhyw ad-daliad gan Lywodraeth y DU ar gyfer y costau o beidio â chasglu treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru o fis Ebrill 2018 yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru, ac nid Awdurdod Cyllid Cymru. Deallwn mai £275k y flwyddyn yw'r ad-daliad i Lywodraeth yr Alban.

Mae Rhaglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Fel y soniais yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 31 Ionawr, mae hon yn dreth gymhleth gyda meysydd o ddibyniaeth. Pe byddai o fudd, gallai fy swyddogion ddarparu briff technegol arall i'r Pwyllgor i roi rhagor o fanylion ynghylch y meysydd o'r Bil sydd o ddiddordeb penodol.

Os ystyriwch fod angen rhagor o wybodaeth, a fyddech cystal â rhoi gwybod imi.

**Yn gywir**

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

**<u>Crynodeb o brif feysydd y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi ("y Bil") o'i gymharu â model y Ddeddf Cyllid ("DC 1996")</u>**

## Cyflwyniad

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r dreth dirlenwi wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf a hynny'n bennaf ar ffurf deddfwriaeth sylfaenol ac atodlen, is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddydau, hysbysiadau, canllawiau a chyfraith achos. Nod Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yw rhoi cynifer o fanylion â phosibl ar wyneb y Mesur er mwyn iddo fod yn hygyrch, yn dryloyw ac yn ymarferol.

Mae'r Bil yn cadw at fframwaith sylfaenol y ddeddfwriaeth bresennol ond mae'n ceisio'i gwella, ei hegluro a'i thynhau lle bo modd gan sicrhau ei bod yn gyfoes, yn berthnasol i Gymru ac yn adlewyrchu'n well yr arferion sydd wedi bwrw gwreiddiau.

Nod y papur hwn yw crynhoi prif feysydd y Bil o'u cymharu â'r dreth dirlenwi bresennol ac fe ddylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Nodiadau Esboniadol sy'n dod gyda'r Bil.

## Rhan 2, Penodau 1 a 2 (aa. 2 -8): Gwarediadau Trethadwy

### Crynodeb

- Mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi ac yn rhestru o dan ba amgylchiadau y bydd y dreth i'w chodi wrth waredu deunydd.

- Mae Adran 3 yn rhestru pedwar amod y mae angen eu bodloni er mwyn i warediad fod yn drethadwy ac mae adrannau 4-7 yn sôn mwy am yr amodau hynny.

- Mae Adran 8 yn rhestru'r gweithgareddau a gaiff eu trin yn warediadau trethadwy, ni waeth a yw'r pedwar amod yn adran 3 yn cael eu bodlon neu beidio.

- Mae'r Bil yn cymryd nifer o bwerau penodol i newid y Bil (adrannau 4(3), 6(4) ac 8(5)), ac mae'r rhain i gyd yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

### Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996

- Mae'r amodau y mae angen eu bodloni er mwyn i warediad fod yn drethadwy fel y'u nodir yn adran 3 o'r Bil fwy neu lai'n gyson â'r rheini sydd yn adran 40 DC 1996.

- *Serch hynny, nid yw adran 40 DC 1996 yn estyn y dreth dirlenwi i gynnwys gwarediadau a wneir y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig, ond mae adran 3 o'r Bil yn gwneud hynny. Mae Deddf Treth Dirlenwi (Yr Alban) 2014 (Adran 12) hefyd yn estyn cwmpas Deddf Dirlenwi yr Alban i warediadau a wneir mewn safleoedd nad ydynt yn safleoedd tirlenwi awdurdodedig.*

- Mae Adran 4 (gwaredu deunydd drwy dirlenwi) fwy neu lai'n gyson ag adran 65 DC 1996.

- Mae Adran 5 (safleoedd awdurdodedig a thrwyddedau amgylcheddol) fwy neu lai'n gyson ag adran 66 DC 1996, er bod cyfeiriadau deddfwriaethol wedi'u diweddaru.

- Mae Adran 6(1) (gwaredu deunydd fel gwastraff) fwy neu lai'n cyfateb i adran 64(1) Deddf Cyllid 1996. *Darpariaethau newydd yw Adran 6(2) a (3) a bwriedir i'r rhain wella'r ddealltwriaeth ynghylch y materion y gellid eu hystyried wrth benderfynu a yw'n fwriad gan rywun roi'r deunydd o'r neilltu ac felly helpu i roi'r prawf ar waith yn adran 6(1).*

*- Darpariaeth newydd yw Adran 7 sy'n esbonio pwy sy'n gyfrifol am waredu at ddibenion rhoi'r prawf ar waith yn adran 6(1).*

- Mae'r gweithgareddau a restrir yn adran 8 fwy neu lai'n gyson â'r rheini a restrir yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig Safleoedd Tirlenwi) 2009, a wnaethpwyd o dan adran 65A DC 1996. *Serch hynny, yn y Bil, mae'r gweithgareddau wedi'u rhestru ar wyneb y ddeddfwriaeth. Mae ambell wahaniaeth yn y ffordd y mae'r gweithgareddau wedi'u geirio er mwyn egluro a thynhau'r trefniadau ac adlewyrchu'r datblygiadau mewn cyfraith achos.*

- Mae'r pŵer yn adran 4(3) yn cyfateb fwy neu lai i'r hyn sydd yn adran 65(5). *Mae Adran 46 DC 1996 hefyd yn darparu pŵer eang i amrywio darpariaethau er mwyn gwneud gwarediad yn drethadwy pan fyddai wedi bod yn drethadwy fel arall, neu'r gwrthwyneb. Er bod y Bil yn cynnwys pwerau penodol i wneud gwelliannau, nid oes dim byd yn cyfateb yn uniongyrchol i adran 46.*

**<u>Rhan 2, Pennod 3 a Rhan 3, Pennod 3 (aa. 19 -12 ac aa. 25 -32): Esemptiadau a Rhyddhadau</u>**

**Crynodeb**

- Ni fydd y gweithgareddau a restrir yn yr esemptiadau yn Rhan 2 o'r Bil yn warediadau trethadwy ac ni fydd angen ffeilio ffurflen dreth er mwyn hawlio'r esemptiad.

- Ar hyn o bryd, rhestrir dau esemptiad ond cymerir pŵer i greu rhagor o esemptiadau drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth (o dan y weithdrefn gadarnhaol). Mae'r eithriadau sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn berthnasol yng nghyd-destun safleoedd tirlenwi awdurdodedig ond gellid hefyd rhoi'r pŵer ar waith i greu esemptiadau yng nghyd-destun gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

- Bydd y gweithgareddau y ceir hawlio rhyddhad ar eu cyfer a restrir yn Rhan 3 o'r Bil yn warediadau trethadwy ond ni fydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'w chodi os hawlir rhyddhad yn briodol ar ffurflen dreth.

- Rhestrir pedwar math o ryddhad ar hyn o bryd, ond cymerir pŵer i greu rhagor o fathau o ryddhad drwy is-ddeddfwriaeth (o dan y weithdrefn gadarnhaol). Dim ond yng nghyd-destun safleoedd tirlenwi awdurdodedig y bydd rhyddhad yn berthnasol.

**Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996**

- Mae ystod y gweithgareddau chodir y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar eu cyfer fwy neu lai'n gyson â'r rheini a restrir yn adrannau 43 - 45 DC 1996. *Serch hynny yn Neddf Cyllid 1996 mae pob gweithgaredd o'r fath yn cael ei gategoreiddio'n esemptiad, er bod yr hyn sy'n ofynnol gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, o safbwynt ymarferol, yn amrywio i bob golwg o'r naill esemptiad i'r llall (e.e. nid oes gofyn cyflwyno ffurflen dreth i hawlio esemptiad am fynwent anifeiliaid anwes ond mae angen defnyddio ffurflen i hawlio esemptiadau eraill a chadw dogfennau'n dystiolaeth).*

- Mae Adran 11 (esemptiad mynwentydd anifeiliaid anwes) yn gyson ag adran 45 DC 1996.

- *Nid oes dim byd sy'n cyfateb yn uniongyrchol i Adran 10 (gwarediadau lluosog). Mae Rheoliad 3(2) o Orchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig Safleoedd Tirlenwi) 2009 yn dweud na chaiff gweithgaredd ei drin yn warediad trethadwy os bydd treth dirlenwi wedi'i chodi ar ei gyfer eisoes (neu os bydd wedi'i esemptio) ond nid oes dim darpariaeth ar gyfer y gwrthwyneb (h.y. os bydd gweithgaredd rhagnodedig yn digwydd cyn gwneud gwarediad trethadwy wedyn).*

- Mae Adran 26 (deunydd a dynnir o ddŵr) fwy neu lai'n gyson (ond gydag ambell newid) ag adran 43 DC 1996 *, er bod y Bil yn ei ystyried yn rhyddhad*.

- Mae Adran 27 (deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela) ac Adran 31 (ail-lenwi cyn chwareli) yn cyfateb fwy neu lai i adrannau 44 a 44A DC 1996 yn y drefn honno*, er bod y Bil yn ystyried hyn yn rhyddhad*.

- *Mae Adrannau 28-30 (deunydd a ddefnyddir i adfer safle) yn wahanol o safbwynt eu hymagwedd dechnegol i DC 1996 (gweler paragraff 1B o Atodlen 5 DC 1996 ac Erthygl 3(1)(h) o Orchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig) 2009), lle mae yna ofyniad i hysbysu Cyllid a Thollau EM am waith i adfer safle, ac oni wneir hynny, bydd y deunydd a ddefnyddir yn y gwaith yn cael ei drin fel gweithgaredd rhagnodedig ac yn drethadwy. I'r gwrthwyneb, bydd gwaith i adfer safle bob tro'n weithgaredd penodedig o dan adran 8 o'r Bil ond bydd rhyddhad ar gael o dan adran 28 os bodlonir y gofynion.* Dylai effaith ymarferol y ddwy ymagwedd hon fod fwy neu lai'n debyg.

- *Mae Adran 46 DC 1996 hefyd yn darparu pŵer eang i amrywio darpariaethau er mwyn gwneud gwarediad yn drethadwy na fyddai wedi bod yn drethadwy fel arall, neu'r gwrthwyneb. Er bod y Bil yn cynnwys pwerau penodol i ychwanegu, addasu neu ddileu esemptiad neu ryddhad (aa. 12 a 32), nid oes dim byd sy'n cyfateb yn uniongyrchol i adran 46.*

## Rhan 3, Penodau 1 a 2 (aa. 13 – 24): Y Dreth sydd i'w Chodi ar Warediadau Awdurdodedig

### Crynodeb

- Gweithredwr y safle tirlenwi yw'r sawl y caniateir codi'r dreth gwarediadau tirlenwi arno ar safle tirlenwi awdurdodedig.

- Bydd y dreth gwarediadau tirlenwi'n cynnwys cyfradd safonol a chyfradd is a bydd y gyfradd honno'n cael ei lluosi gan bwysau'r deunydd er mwyn cyfrifo faint o dreth a godir.

- Bydd Rheoliadau'n rhestru'r deunyddiau ("deunyddiau cymwys") sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is ynghyd ag unrhyw amodau y bydd angen eu bodloni.

- Gall cymysgedd o ddeunyddiau cymwys a deunydd ar y gyfradd safonol fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is ar yr amod bod y rhestr o ofynion yn adran 16 yn cael eu bodloni.

- Gellir pennu rhagor o ofynion mewn rheoliadau er mwyn i lwyth o ddeunydd o ronynnau mân fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is.

- Rhaid pwyso'r deunydd ar bont bwyso oni fydd ACC yn cymeradwyo cais i ddefnyddio dull pwyso gwahanol.

- Caiff gweithredwyr safleoedd tirlenwi wneud cais i ACC am ddisgownt ar gyfer dŵr dan amgylchiadau penodedig penodol ac, os caniateir hyn, bydd pwysau trethadwy'r deunydd yn llai.

- Caiff ACC gyfrifo pwysau'r deunydd ei hun os bydd yn meddwl bod hynny'n briodol gan ddefnyddio unrhyw ddull y gwelo'n briodol.

### Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996

- Mae Adran 13 (y person y mae'r dreth i'w chodi arno) yn gyson ag adran 41 DC 1996.

- Mae Adran 14 (cyfrifo'r dreth) fwy neu lai'n gyson ag adran 42 DC 1996 o ran y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r dreth, darparu cyfradd safonol a chyfradd is a rhoi'r gyfradd is ar waith ar gyfer deunyddiau cymwys a gronynnau mân sy'n gymwys. *Serch hynny, nid yw adran 14 yn gosod y cyfraddau ar wyneb y Bil; mae'n darparu pŵer ar gyfer sefydlu safon wahanol a chyfraddau is ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunyddiau ac mae'n fwy penodol wrth ymdrin â llwythi cymysg o ddeunyddiau.*

- Mae Adran 15 (deunydd cymwys) yn debyg i adran 42 DC 1996 o ran darparu ar gyfer rhestru deunyddiau cymwys mewn is-ddeddfwriaeth (gyda'r opsiwn o ychwanegu amodau ) *ond mae'n cynnwys gofyniad i roi disgrifiad*

*ysgrifenedig o'r deunydd ar wyneb y Bil ac nid yw'n mabwysiadu darpariaethau sy'n cyfateb i adran 42 (4) - (6) DC 1996*.

- *Darpariaeth newydd yw Adran 16. Mater yr ymdrinnir ag ef drwy gyfarwyddydau a chanllawiau yn y Deyrnas Unedig yw a yw llwyth cymysg yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is neu beidio, ond mae'r Bil yn ceisio cyfuno'r arferion sydd ar waith ar hyn o bryd a'u hegluro drwy ddefnyddio rhestr o ofynion mewn prif ddeddfwriaeth.*

- Mae Adran 17(3) yn mabwysiadu'r un diffiniad o ronynnau mân ag sydd yn adran 70(1) DC 1996. Fel sy'n wir am ymagwedd y Deyrnas Unedig, mae'r Bil yn cadw manylion y profion y bydd angen eu bodloni ar gyfer is-ddeddfwriaeth, er bod cysylltiad clir ag adran 16 oherwydd bod angen bodloni'r gofynion hyn hefyd er mwyn i ronynnau mân fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is. *Mae llawer o'r manylion ynglŷn â gronynnau sydd yn adran 16 ar hyn o bryd i'w gweld yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Gronynnau Mân Cymwys) 2015.*

- *Mae'r Bil yn rhoi manylion am sut y bydd y pwyso a'r disgownt am ddŵr yn gweithio, ond mae hyn yn cael ei drafod drwy reoliadau yn y Deyrnas Unedig, o dan y pŵer yn adran 68 DC 1996 (gweler Rhan X o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996). Mae rhai gwahaniaethau rhwng y Bil a'r darpariaethau yn y rheoliadau hynny - er enghraifft, mae'r Bil yn dechrau o'r safbwynt y bydd pwyso'n digwydd ar bont bwyso. Nid yw rheoliadau'r Deyrnas Unedig yn gwneud hynny.*

*- Darpariaethau newydd yw Adrannau 22 a 23. Serch hynny, mae'r awdurdod trethu'n gallu cyhoeddi asesiadau a phenderfyniadau ynghylch y dreth o dan drefn DC 1996 ac felly rhaid iddo lunio barn ynghylch pwysau trethadwy deunydd sy'n cael ei asesu neu y penderfynir yn ei gylch fel hyn.*

## <u>Rhan 3, Pennod 4 (aa. 33 - 44): Casglu a Rheoli'r Dreth</u>

### Crynodeb

- Mae'r Bennod hon yn trafod y trefniadau gweinyddol ar gyfer casglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng nghyd-destun safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

- Mae a wnelo adrannau 33-37 â'r trefniadau cofrestru, sy'n cynnwys ei gwneud yn ddyletswydd i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy gofrestru gydag ACC ac i ACC gadw cofrestr o'r bobl hynny.

- Mae a wnelo Adrannau 38 - 40 â threfniadau cyfrifyddu Yn ei hanfod, mae adran 38(1) yn ei gwneud yn ddyletswydd i'r sawl sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy ddychwelyd ffurflen dreth ac mae'n dweud beth y dylai'r ffurflen honno ei gynnwys ac erbyn pryd y mae'n rhaid ei ffeilio a pha bryd y codir y dreth.

- Mae Adran 41 yn gorfodi dyletswydd i dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac yn dweud erbyn pryd y mae'n rhaid talu, a dibynnu ar yr amgylchiadau, ac mae adran 42 yn mynnu bod y sawl sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy'n cadw cofnod o'r dreth a godir a'r dreth a delir ym mhob cyfnod cyfrifyddu.

- Mae angen darllen y Bennod hon ar y cyd â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016[1] ac mae'n gwneud ambell welliant i ddarpariaethau'r Ddeddf honno.

**Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996**

- Mae'r darpariaethau hyn yn mynd ati mewn ffordd eithaf tebyg i'r hyn a wneir yn y Deyrnas Unedig, er bod ambell wahaniaeth - er enghraifft creu dyletswydd benodol i gofrestru ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

*- Serch hynny, y gwahaniaeth mwyaf nodedig yn y maes hwn yw bod llawer o ddarpariaethau cyfatebol y dreth dirlenwi i'w gweld mewn is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft:*

- *Mae'r darpariaethau cofrestru wedi'u rhannu rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig (adran 47 DC 1996 a rheoliadau 4-6 o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996).*

- *Mae'r gofynion cyfrifyddu, talu a chadw cofnodion sy'n cyfateb i'r rheini a nodir uchod i'w gweld mewn is-ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig (Rhan III o Reoliadau'r Dreth Dirlenwi).*

- *Mae Adran 61 DC 1996 yn cyfateb yn fras i adran 40 o'r Bil ond lle mae'r Bil yn rhestru cynnwys anfoneb tirlenwi, gwneir hyn drwy reoliadau yn y Deyrnas Unedig (rheoliad 37 o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996)*

## Rhan 4 (aa. 45- 52): Gwarediadau Trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig

### Crynodeb

- Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer cyfradd waredu anawdurdodedig ac mae'n galluogi ACC i wneud y sawl sy'n gwaredu, y sawl sy'n achosi i warediad gael ei wneud gan wybod hynny a/neu y sawl sy'n caniatáu i warediad gael ei wneud gan wybod hynny, yn atebol am dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

- Mae'r Rhan hon yn sôn am broses y mae'n rhaid i ACC ei dilyn er mwyn sbarduno'r atebolrwydd am dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac mae'n cymryd pŵer i wneud darpariaeth arall neu wahanol, o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996**

[1] http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12989

*- Nid yw'r dreth dirlenwi'n berthnasol i waredíadau anawdurdodedig felly nid oes darpariaethau cyfatebol yn DC 1996.*

*- Yn yr Alban, er bod darpariaeth wedi'i gwneud i Dreth Dirlenwi'r Alban fod yn berthnasol i waredíadau anawdurdodedig, nid yw Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 yn cynnwys darpariaethau wedi'u teilwra nac yn creu cyfradd dreth ar wahân ar gyfer gwaredíadau o'r fath ac felly, nid oes darpariaethau cyfatebol.*

**<u>Rhan 5 (aa. 53-89): Darpariaeth Atodol</u>**

**Crynodeb**

- Mae Adran 53 yn rhoi pŵer i ddarparu ar gyfer credydau treth mewn rheoliadau.

- Mae Pennod 2 (aa. 54-56) yn sôn am broses lle y gall ACC ddynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yn fan lle nad oes gwaredu, ac mae'n nodi'r hyn y gall dynodiad o'r fath ei gynnwys, yn ei gwneud yn ddyletswydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi gydymffurfio â hysbysiad sy'n gwneud dynodiad o'r fath ac yn cynnwys gofynion ynglŷn â chadw cofnodion yng nghyswllt y man hwnnw.

- Mae Adran 58 yn ychwanegu darpariaeth bellach i'r pwerau i archwilio yn Rhan 4, Pennod 4 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

- Mae Adran 59 yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i rannu gwybodaeth ag ACC i'w helpu i gasglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae gallu ACC i rannu gwybodaeth â chyrff eraill yn cael ei reoli gan Ran 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

- Mae Pennod 4 (aa. 60-72) yn rhestru nifer o gosbau newydd a fydd yn berthnasol at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: mae a wnelo'r rhain a phwyso, cofrestru a gofynion ynghylch mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu ac mae'r rhain ar wahân i'r cosbau sydd ar waith eisoes o dan Ddeddf Caglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (er enghraifft am fethu â ffeilio ffurflen dreth neu dalu’r dreth mewn pryd).

- Mae Pennod 5 (aa. 73-75) yn rhestru cyfres o welliannau penodol i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gyda golwg ar y cosbau sydd eisoes ar waith o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

- Mae Pennod 6 (aa. 76 - 86) yn cynnwys darpariaethau sy'n ymdrin â sefyllfaoedd penodol a all godi yng nghyswllt y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: darpariaethau sy'n caniatáu i weithredwyr wneud cais am ddynodi grŵp o gwmnïau er mwyn i un aelod sy'n ei gynrychioli ymdrin â chyfrifoldebau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ran y grŵp; darpariaethau sy'n ymwneud â phartneriaethau a chyrff anghorfforedig; darpariaethau ynglŷn â marwolaeth, analluedd ac ansolfedd a phŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnes fel busnes gweithredol.

- Mae Adran 87 yn caniatáu ar gyfer addasu contract sy'n ymwneud â gwarediad trethadwy ar safle tirlenwi awdurdodedig ar ôl newid i ddeddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n effeithio ar swm y dreth sydd i'w chodi.

- Mae Adran 88 yn rhoi pŵer i orfodi atebolrwydd am y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar reolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

**Y prif bethau sy'n debyg ac yn *wahanol* i DC 1996**

- Mae'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth fwy neu lai'n gyson â'r dull a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig (a. 51 DC 1996). *Serch hynny, mae'r pŵer a gymerir yn y Bil yn cynnwys pŵer i greu cosbau am fethu a chydymffurfio â gofynion y rheoliadau hynny. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer mathau penodol o gredyd treth y gellid eu creu (aa. 52-53 DC 1996) oherwydd ni thybid bod hyn yn angenrheidiol.*

- Mae cysyniad sy'n cyfateb i'r mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu yn y Deyrnas Unedig, ac fe'u gelwir yn fannau gwybodaeth. *Serch hynny, mae'r darpariaethau hyn mewn is-ddeddfwriaeth (Rheoliad 16A o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996, a wnaethpwyd o dan y pŵer ym mharagraff 1A o Atodlen 5 DC 1996). Mae gwahaniaethau sylweddol o ran y broses ymgeisio, y prawf ar gyfer pa bryd y mae'n rhaid defnyddio'r fan a chanlyniadau methu a chydymffurfio.*

- Mae Adran 50 yn cyfateb yn fras i baragraff 35 o Atodlen 5 DC 1996, *er bod darpariaeth DC 1996 yn ehangach o ran ei bod hefyd yn caniatáu i Gyllid a Thollau EM ddatgelu gwybodaeth i'r cyrff a enwir.*

- Mae'r darpariaethau sy'n ymdrin â dynodi grwpiau o gwmnïau'n gyson fwy neu lai ag adran 59 DC 1996, *ond bod rhai pethau wedi'u newid a'u mireinio.*

- O ran partneriaethau a chyrff anghorfforedig, mae adran 81 yn cyfateb yn fras i adran 58 DC 1996, *ond bod rhai pethau wedi'u newid a'u mireinio. Ymdrinnir â dyletswyddau a rhwymedigaethau partneriaethau (adran 82) serch hynny mewn is-ddeddfwriaeth (rheoliad 8 o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996).*

- *Mae darpariaeth ynglŷn ag ansolfedd ac analluedd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig (rheoliad 9 o Reoliadau Treth Dirlenwi 1996, a wnaethpwyd o dan y pŵer yn adran 58 DC 1996). Mae'r rhain yn cyfateb yn fras i'r rheini sydd yn y Bil, er bod rhai pethau wedi'u newid a'u mireinio ac, yn nodedig, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer marwolaeth. Er bod adran 58 DC 1996 yn rhoi'r pŵer i wneud hyn, nid yw'r Rheoliadau a wnaethpwyd o dan y pŵer hwnnw yn gwneud hynny.*

*- Mae'r pŵer yn adran 86 i wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo busnes fel busnes gweithredol yn cyfateb yn fras i'r pŵer yn adran 58(5) a (6) DC 1996, ond mae'n wahanol yn yr ystyr ei fod yn caniatáu ar gyfer gorfodi cosbau am*

*fethu â bodloni'r gofynion ac mae'n manylu ynghylch y materion y gallai'r rheoliadau eu cynnwys.*

- Mae Adran 86 yn cyfateb yn fras i baragraffau 45 a 46 o Atodlen 5 DC 1996 *ac eithrio bod adran 87 yn ei gwneud yn glir nad oes ond modd cael addasiad lle bydd newid yn digwydd yn sgil deddfu.*

- Mae Adran 88 yn mabwysiadu'r un diffiniad o reolwr ag sydd ym mharagraff 48 o Atodlen 5 DC 1996 *ond mae'n wahanol o ran bod Rhan VIII o Atodlen 5 DC 1996 yn cynnwys darpariaeth sylweddol ynghylch rhwymedigaeth ond bod adran 88 yn cymryd pŵer i wneud rheoliadau.* Mae'r pŵer yn adran 88 yn gyson ag adran 17 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban ) 2014.